



Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Do
Interim Chief Education Officer

Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:

Gwasanaeth Ysgolion / Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for

Ffôn / Tel: 01597 826630

Ffacs / Fax:

Ffôn symudol / Mobile:

E-bost / Email: Lynette.Lovell@powys.gov.uk

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 20th Mawrth 2020

Annwyl rieni a gofalwyr,

Cau Ysgolion ym Mhowys a Coronafeirws (COVID-19)

Cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams, y byddai ysgolion yn cau erbyn Mawrth 20ed, ond byddai gan rai rôl i blant gweithwyr hanfodol. Nododd y bydd manylion pellach yn dilyn.

Ym Mhowys rydym yn ceisio rheoli hyn fesul cam. Bydd ysgolion Powys yn aros ar agor Ddydd Llun a Dydd Mawrth, ond dim ond i ddarparu gofal plant i weithwyr hanfodol, plant bregus a'r rhai hynny efo gweithiwr cymdeithasol. Plîs peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol os nad ydych chi'n weithiwr hanfodol. Bydd sefydliadau'r blynyddoedd cynnar yn parhau ar agor fel arfer.

Felly, ar Ddydd Llun a Mawrth gobeithiwn y bydd gennym nifeoredd isel yn mynychu ysgolion. Y rheswm dros wneud hyn yw ein bod yn ymdrechu i greu gofod i weithio efo penaethiaid o ran y ffordd orau o gynnig y ddarpariaeth yn ystod cyfnod pan fydd salwch eang ar draws y sir, gyda llai o staff ar gael i gynnal y gwasanaethau hanfodol.

Sicrhewn y bydd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cael y pryddau bwyd hynny. Bydd ffreutur ysgolion yn darparu pecynau bwyd ar Ddydd Llun a Dydd Mawrth i chi eu casglu o ysgol eich plenty / plant am 12 o'r gloch. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r llywodraeth genedlaethol i ganfod sut y gallwn ddarparu pryddau ysgol am ddim dros gyfnod yr argyfwng. Ymhlith y rhieni y mae eu gwaith yn hanfodol i ymateb COVID-19 mae'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn sectorau allweddol eraill a amlinellir isod. Efallai y bydd llawer o rieni sy'n gweithio yn y sectorau hyn yn gallu sicrhau bod eu plentyn yn gallu aros gartref. Dylai pob plentyn sy'n gallu derbyn gofal diogel aros gartref. Felly, dilynwch yr egwyddorion allweddol hyn:

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



1. Os yw'n bosibl o gwbl i blant aros gartref, yna, yno y dylet fod.
2. Os oes angen cymorth arbenigol ar blentyn, yn agored i niwed neu os oes gan y plentyn riant sy'n weithiwr hanfodol, yna bydd darpariaeth addysgol ar gael.
3. Ni ddylai rhieni ddibynnu am ofal plant ar y rhai y cynghorir eu bod yn y categori pellhau cymdeithasol llym fel neiniau a theidiau, ffrindiau neu aelodau o'r teulu sydd â chyflyrau sylfaenol.
4. Dylai rhieni hefyd wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau nad yw plant yn cymysgu'n gymdeithasol mewn ffordd a all barhau i ledaenu'r firws. Dylent gadw at yr un egwyddorion pellhau cymdeithasol ag oedolion.
5. Mae ysgolion preswyl arbennig, ysgolion preswyl a lleoliadau arbennig yn parhau i ofalu am blant lle bynnag y bo modd.

Os yw'ch gwaith yn hanfodol i ymateb COVID-19, neu os ydych chi'n gweithio yn un o'r sectorau hanfodol a restrir isod, ac na allwch gadw'ch plenty/plant yn ddiogel gartref yna bydd eich plentyn/plant yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer darpariaeth addysg:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Addysg a gofal plant
- Gwasanaethau cyhoeddus allweddol
- Llywodraeth leol a chenedlaethol
- Bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill
- Diogelwch y cyhoedd a diogelwch cenedlaethol
- Trafnidiaeth
- Gwasanaethau cyfleustodau, cyfathrebu ac ariannol

Am fanylion pellach, dyma'r ddolen gyswllt:

<https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-maintaining-educational-provision/guidance-for-schools-colleges-and-local-authorities-on-maintaining-educational-provision>

Sylwch, dyma restr Llywodraeth y DU a bydd yn destun unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Byddwn yn eich diweddarau trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol canlynol:

www.facebook.com/powyscc

www.powys.gov.uk/cspowys

www.twitter.com/powyscc

www.twitter.com/cspowys

www.twitter.com/powyseducation

Cyngor Cyfredol i'r Cyhoedd: Symptomau

Os oes rhaid i chi aros gartref dilynwch gyngor hunan-ynysu ar lechyd Cyhoeddus Cymru.

Ni ddylech gysylltu â 111 oni bai:

- eich bod chi'n teimlo na allwch chi ymdopi â'ch symptomau gartref

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



- bod eich cyflwr yn gwaethygu
- nad yw'ch symptomau'n gwella ar ôl 7 diwrnod

Cyngor Cyfredol i'r Cyhoedd ynghylch Rheoli Heintiau

I amddiffyn eich hun a phobl eraill:

- golchwch eich dwylo â sebon a dŵr yn amlach, a gwnewch hyn am o leiaf 20 eiliad
- golchwch eich dwylo bob amser pan gyrhaeddwch y gwaith ac adref o'r gwaith
- defnyddio gel glanweithydd dwylo os nad oes sebon a dŵr ar gael
- gorchuddiwch eich ceg a'ch trwyn gyda hances bapur neu'ch llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch chi'n pesychu neu'n tisian
- rhwch yr hances sydd wedi'u defnyddio yn y bin ar unwaith a golchwch eich dwylo wedyn
- ceisiwch osgoi cyswllt agos â phobl sy'n sâl
- peidiwch â chyffwrdd â'ch llygaid, eich trwyn na'ch ceg os nad yw'ch dwylo'n lân
- os y gofynnir ichi aros i ffwrdd ac osgoi dod i gysylltiad â phobl eraill, dilynwch y cyngor hunan-ynysu.

**Mae mwy o wybodaeth ar gael ar <https://phw.nhs.wales/coronavirus>
Dolenni i ragor o wybodaeth**

- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Llywodraeth Cymru**
- **Llywodraeth y DU**
- **Cymorth busnes**

Links to more Information

Public Health Wales
Welsh Government
UK Government
Business support

Yn gywir,

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Do
Interim Chief Education Officer